OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2023 No. 260

Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2023

RHAN 4

Yr hawl i gael tâl salwch amaethyddol

Pennu swm tâl salwch amaethyddol

22.—(1) Mae tâl salwch amaethyddol yn daladwy yn ôl cyfradd sy'n cyfateb i o leiaf y gyfradd tâl isaf fesul awr a ragnodir yn erthygl 11 o'r Gorchymyn hwn ac Atodlen 1 iddo fel y gyfradd sy'n gymwys i'r radd honno neu'r categori hwnnw o weithiwr amaethyddol.

(2) Pennir swm y tâl salwch amaethyddol sy'n daladwy i weithiwr amaethyddol drwy gyfrifo nifer yr oriau contract dyddiol a fyddai wedi cael eu gweithio yn ystod cyfnod o absenoldeb salwch.

(3) Pennir nifer yr oriau contract dyddiol—

(a) o dan amgylchiadau pan fo gweithiwr amaethyddol yn gweithio nifer penodedig o oriau bob wythnos drwy rannu cyfanswm nifer yr oriau a weithiwyd yn ystod unrhyw wythnos â nifer y diwrnodau a weithiwyd yn yr wythnos honno;

(b) o dan amgylchiadau pan fo gweithiwr amaethyddol yn gweithio nifer amrywiol o oriau bob wythnos, drwy ddefnyddio'r fformwla—

$$\frac{QH \div 8}{DWEW}$$

pan fo, at ddibenion yr erthygl hon—

QH yn gyfanswm nifer yr oriau cymwys yn y cyfnod, a

DWEW yn nifer y diwrnodau a weithiwyd bob wythnos gan y gweithiwr amaethyddol o'u cymryd ar gyfartaledd yn ystod cyfnod o 8 wythnos yn union cyn i'r absenoldeb salwch gychwyn.

(4) Yn yr erthygl hon "oriau cymwys" yw oriau—

(a) pan fu'r gweithiwr amaethyddol yn gweithio oriau sylfaenol neu oramser gwarantedig,

(b) pan gymerodd y gweithiwr amaethyddol wyliau blynyddol neu absenoldeb oherwydd profedigaeth,

(c) pan gafodd y gweithiwr amaethyddol absenoldeb salwch a oedd yn gymwys ar gyfer tâl salwch amaethyddol o dan y Gorchymyn hwn, neu

(d) pan gafodd y gweithiwr amaethyddol absenoldeb salwch nad oedd yn gymwys ar gyfer tâl salwch amaethyddol o dan y Gorchymyn hwn, a

"diwrnodau cymwys" yw unrhyw ddiwrnodau o fewn y cyfnod y cafwyd ynddynt oriau cymwys mewn perthynas â'r gweithiwr amaethyddol.

(5) At ddibenion cyfrifiadau o dan yr erthygl hon, pan fo gweithiwr amaethyddol wedi ei gyflogi gan ei gyflogwr am lai nag 8 wythnos, rhaid ystyried yr oriau cymwys a'r diwrnodau cymwys yn ystod y gwir nifer o wythnosau y mae'r gweithiwr amaethyddol wedi ei gyflogi gan ei gyflogwr.